Gwneud Pethau'n Iawn dros Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Her i'ch disgyblion chi!

Enillwch gyfrifiadur pen-glin neu gamcorder bach

Ugain mlynedd yn ôl, llofnododd cenhedloedd y byd **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc ym mhobman.

Ers hynny, mae llawer o bethau wedi gwella. Ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn gwneud pethau'n iawn.

Er mwyn nodi'r pen-blwydd yma, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio Cynllun Gweithredu – wedi'i seilio ar yr CCUHP – i wneud rhagor o gynnydd tuag at ei nodau.

Mae hynny'n cynnwys:

- Cael gwared ar dlodi ymhlith plant
- Gwella cyraeddiadau plant a phobl ifanc wrth ddysgu
- Sicrhau eu bod yn byw bywyd iach a'u bod yn cael chwarae yn rheolaidd ac yn ddiogel
- Caniatáu iddyn nhw fynegi eu barn
- Atal triniaeth annheg a phob math o fwlio
- Amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid
- Helpu plant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

I lansio'r Cynllun Gweithredu, rydyn ni'n gwahodd plant a phobl ifanc Cymru i gynnig syniadau ar gyfer troi unrhyw rai o'r cynigion hyn yn realiti.

Rydyn ni am wybod beth, ym marn eich disgyblion chi, a allai gael ei wneud i sicrhau bod bywyd yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy difyr i blant a phobl ifanc Cymru dros yr ugain mlynedd nesaf.

Rydyn ni'n chwilio am syniadau sydd wedi'u mynegi ar un o'r ffurfiau hyn:

- Darlun neu beintiad gyda chapsiwn
- Cerdd mewn dau bennill
- Ffoto neu *montage* o ffotograffau gyda chapsiwn

Bydd y cynnig gorau yn y pedwar rhanbarth yng Nghymru yn ennill Camcorder Digidol Flip ac o'r pedwar hyn bydd yr un gorau yn ennill cyfrifiadur pen-glin DELL i'w hysgol. Bydd ein panel beirniadu yn cynnwys pobl ifanc.

Does dim ots pa ffurf y bydd y plant yn ei dewis i wneud eu cynigion. Beth sy'n bwysig yw'r syniad a pha mor dda mae'n cael ei fynegi.

Ar ôl i'r plant orffen eu cynigion, dylai'r ysgol eu hanfon at Gwneud Pethau'n Iawn, d/o Working Word PR, Llawr 9, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW, ynghyd â'r ffurflen bwrpasol. Fel arall, gallwch sganio'r cynigion a'u hanfon drwy'r e-bost at info@workingwordpr.com

15 Ionawr 2010 yw'r dyddiad cau a bydd y canlyniadau ar gael ym mis Chwefror 2010. Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2010.

Bydd y cynigion llwyddiannus yn cael eu gosod ar wefan www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

(Ewch i'r wefan i weld rheolau llawn y gystadleuaeth)

I gael rhagor o wybodaeth am yr CCUHP edrychwch ar www.unicef.org/crc

Y ffurflen ymgeisio

Gwneud Pethau'n Iawn dros Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Enw'r disgybl sy'n ymgeisio: _____ Dyddiad geni: _____

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol: _____

_____

Enw'r athro neu'r athrawes: _____

Rhif ffôn yr athro neu'r athrawes: _____

Cyfeiriad e-bost yr athro neu'r athrawes: _____

Disgrifiad o'r cynnig: Cerdd Darlun Montage *(rhowch gylch am yr un priodol)*

☐ Rydw i wedi darllen ac wedi deall rheolau'r gystadleuaeth *(ticiwch y blwch)*

Llofnod yr athro neu'r athrawes: _____

Printiwch eich enw: _____